**Jwdas Iscariot**

**Darllen Ioan 12:1–8**

A dyma Jwdas Iscariot, un o'i ddisgyblion, yr un oedd yn mynd i'w fradychu, yn dweud, 'Pam na werthwyd yr ennaint hwn am dri chant o ddarnau arian, a'i roi i'r tlodion?' Ond fe ddywedodd hyn, nid am fod gofal ganddo am y tlodion, ond am mai lleidr ydoedd, yn cymryd o'r cyfraniadau yn y god arian oedd yn ei ofal (Ioan 12:4–6).

Iawn, roedd gennyf gymhellion cymysg,
poenwn fwy am fy mhoced nag am anghenion y tlawd,
ond roedd gen i bwynt, does bosib na fedrwch roi hynny i mi.
Cofiwch, roedd ennaint Mair yn stwff drud iawn,
nid gwerth cyflog diwrnod neu ddau,
ond byddai'n rhaid i chi gynilo am wythnosau os nad misoedd
i fedru'i fforddio.

Meddyliwch am y gwahaniaeth y gallai fod wedi ei wneud
i fywydau pobl–
y bwyd y gellid bod wedi ei roi ar y bwrdd,
y dillad y gellid bod wedi eu prynu i'r plant –
a dyna lle'r oedd hi yn ei dywallt mewn gweithred sentimental,
a gwastraffu'r cyfan mewn amrantiad.
Roedd yn drosedd,
afradus –
felly roeddwn i'n gweld pethau,
ac os na allai hi weld gwell defnydd iddo,
fe allwn i.

Ond yn hytrach na'i cheryddu, fel y disgwyliwn,
trodd Iesu ei lid arnaf i, fel taswn i wedi gwneud rhywbeth o'i le.
Beth oedd arno?
Oedd e'n poeni am y tlodion?
Wrth gwrs ei fod a hynny'n fwy na neb,
ond sylweddolai hefyd, os na wnaeth neb arall,
fod yn rhaid iddo wynebu marwolaeth er rhoi bywyd i eraill –
ac roedd Mair, hyd yn oed yn ei diniweidrwydd,
yn eneinio ei gorff i'w gladdu.

Oedd, yr oedd yn poeni,
nid yn unig am y tlodion ond am bawb,
hyd yn oed gwalch diwerth fel fi:
yn poeni digon i'w roi ei hunan yn llwyr
er mwyn gwneud newid real yn bosibl yn ein byd trist ni.
Beth ddaeth drosof yn ei fradychu fel y gwnes?
Rhaid fy mod yn wallgof!

Ond, ar waetha'r sibrydion amdanaf yn dwyn,
roeddwn yn wir yn dymuno cynorthwyo fy mhobl,
a chredais yn fy ffolineb fod Iesu yn ceisio'u harwain ar gyfeiliorn –
ond ni allwn fod wedi gwneud camgymeriad mwy.

Rhoddodd ei fywyd er mwyn rhoi gobaith i bawb,
ac nid oedd dim yn ormod i'w dalu.
Felly os ydych chi'n poeni,
yn gwirioneddol boeni,
am y rhai mewn angen,
faint fyddwch chi'n barod i'w roi?

**Gweddi:**
Arglwydd,
dysg i ni roi yn hael,
i eraill ac i ti;
i ddefnyddio'r adnoddau a roddaist at ein gwasanaeth,
a cheisio mewn ffordd annheilwng greu byd gwell,
a dwyn dy deyrnas ar y ddaear yn nes.
Helpa ni i'th garu'n fwy,
ac i ddangos y cariad hwnnw yn ein haddoliad a'n gwasanaeth,
gan ymestyn allan at y rhai sydd mewn angen.
Drwy ymateb iddynt hwy,
boed i ni yn ogystal ymateb i ti.
Amen.

***Nick Fawcett, addasiad Olaf Davies***